

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

---

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

---

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013

---

Amser: 09:00 – 11:00

---

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en\\_400000\\_19\\_03\\_2013&t=0&l=en](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_19_03_2013&t=0&l=en)

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



---

## Cofnodion Cryno:

### Aelodau'r Cynulliad:

Darren Millar (Cadeirydd)  
Mohammad Asghar (Oscar) AC  
Mike Hedges  
Julie Morgan  
Gwyn R Price  
Jenny Rathbone  
Aled Roberts  
Jocelyn Davies

### Tystion:

Dr Sharon Blackford, Cymdeithas Feddygol Prydain  
Dr Trevor Pickersgill, Cymdeithas Feddygol Prydain

### Staff y Pwyllgor:

Tom Jackson (Clerc)  
Daniel Collier (Dirprwy Glerc)  
Joanest Jackson (Cyngorydd Cyfreithiol)

---

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau o'r cyhoedd.

## 2. Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd – tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; a Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

### **Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Amserlen yn amlinellu sut y bydd y GIG yng Nghymru yn gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;
- Rhagor o wybodaeth am brosiectau y mae'r GIG yng Nghymru wedi comisiynu CHKS i ymgymryd â nhw, ac eglurhad ynghylch sut ddaeth y GIG yng Nghymru i'r casgliad bod y cytundeb yn cynrychioli gwerth da am arian;
- Adborth ar y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch mesurau teg ac ystyrllon o gynhyrchiant meddygon ymgynghorol;
- Eglurhad am y trefniadau sydd ar waith i werthuso'r effaith y mae ymrwymadau gwaith preifat meddygon ymgynghorol yn ei chael ar eu hymrwymadau yn y GIG;
- Rhagor o wybodaeth am sut mae cyrff y GIG yn mynd ati i adennill costau gan feddygon ymgynghorol os byddant yn defnyddio cyfleusterau'r GIG i ymgymryd â gwaith preifat, ac a fu achosion lle mae'r GIG wedi prynu amser meddygon ymgynghorol a ddyrannwyd ar gyfer gwaith preifat;
- Rhagor o wybodaeth ynghylch a yw effaith y trefniadau gweithio hyblyg sy'n deillio o'r contract diwygiedig wedi cynyddu'r nifer o feddygon ymgynghorol sy'n fenywod.

## **3. Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd – tystiolaeth gan Gymdeithas Feddygol Prydain**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Sharon Blackford, Cadeirydd Pwyllgor Meddygon Ymgynghorol Cymru; a Dr Trevor Pickersgill, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Meddygon Ymgynghorol Cymru.

3.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion ynghylch canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd'.

## **4. Papurau i'w nodi**

4.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r camau i'w cymryd yn y cyfarfod ar 18 Chwefror 2013, a chofnodion y cyfarfod ar 12 Mawrth 2013.

## **5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**

Eitemau 6 a 7

## **6. Ystyried tystiolaeth ar y Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd**

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'i ymchwiliad i Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd.

## **7. Ystyried gohebiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y posibilrwydd o gynnal astudiaeth Gwerth am Arian**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod astudiaethau gwerth am arian posibl i'w cynnal gan archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru.